Atodiad 2

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 – 2029/30

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Pwrpas y CATC

Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau ariannol Uchelgais Gogledd Cymru dros y tymor canolig. Ei bwrpas yw sicrhau ein bod yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer ei rwymedigaethau statudol, cynnal cynaliadwyedd ariannol a chefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol.

1.2 Cyfnod y Cynllun

Cyfnod y cynllun hwn yw 2027/28 i 2029/30. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

1.3 Rhagdybiaethau Allweddol

Mae'r rhagolygon ariannol a gynhwysir yn y cynllun yn dilyn cymhwyso nifer o ragdybiaethau allweddol, gan gynnwys:

- Lefelau chwyddiant disgwyliedig.
- Dyfarniadau cyflog cenedlaethol.
- Cyllid a grantiau Llywodraeth Cymru.
- Cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.
- Newidiadau yn y galw a gweithgarwch gwasanaeth.
- Effaith polisïau a deddfwriaeth newydd.

Er mwyn sicrhau cywirdeb y rhagdybiaethau hyn, byddwn yn eu hadolygu'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael

1.4 Sefyllfa ariannol gyffredinol

Erbyn diwedd cyfnod 2025/26 roedd Uchelgais Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) mewn sefyllfa ariannol sefydlog, gyda model cyllido yn seiliedig ar gyfuniad o ardollau awdurdodau cyfansoddiadol, cyfraniadau partner, grantiau a ffynonellau incwm eraill. Yn ystod 2025/26, defnyddiodd y CBC (gan gynnwys y Cynllun Twf) grantiau a chyfraniadau gwerth £18.2m a derbyniodd £2.2m o incwm llog. Roedd y sefydliad hefyd yn rheoli lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau sylweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni rhanbarthol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Twf, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r gwaith Cynllunio Strategol.

Fodd bynnag, nodwyd bod gan y CBC fwy o gronfeydd wrth gefn nag oedd ei angen i barhau i fod yn ddarbodus ac roedd 2026/27 yn cynnwys defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn er mwyn lleihau'r cynnydd yn yr ardoll.

Mae'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun hwn yn adlewyrchu pwysau costau cyflogaeth, chwyddiant a risgiau cyllido grantiau, ond mae hefyd yn dangos cyfleoedd sylweddol i sicrhau buddsoddiad pellach yn y rhanbarth.

1.5 Prif risgiau a chyfleoedd

Risgiau

- Chwyddiant a phwysau cost yn uwch na'r rhagolygon.
- Mae dyfarniadau cyflog a chostau cyflogaeth yn fwy na'r ddarpariaeth yn y gyllideb.
- Newidiadau i lefelau cyllido neu drefniadau grant awdurdod cyfansoddol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Dibynnu ar gyllid grant a ffynonellau cyllido cyfnod penodol ar gyfer rhaglenni strategol.
- Risgiau o recriwtio a chadw staff mewn meysydd arbenigol a swyddogaethau allweddol.
- Oedi wrth sicrhau neu gyflawni prosiectau a ariennir yn allanol.
- Newidiadau i ddeddfwriaeth, polisïau neu flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cost benthyca ddiangen.
- Incwm ardrethi annomestig ar brosiectau Cynllun Twf heb ei dderbyn neu'n is na'r disgwyl.
- Nid yw cyllid grant Parth Buddsoddi ar gael i ariannu gwariant prosiect.
- Gwariant gweinyddu Parth Buddsoddi yn uwch na'r cyllid sydd ar gael.

Cyfleoedd

- Sicrhau cyllid grant a buddsoddiad ychwanegol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol.
- Datblygu a chyflwyno Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.
- Cryfhau trefniadau cydweithredu rhanbarthol a gwasanaethau a rennir.
- Gwella effeithlonrwydd gweithredol a chyflawni mwy o werth am arian.
- Cynyddu incwm buddsoddi a datblygu ffynonellau incwm newydd lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu gallu sefydliadol a chynllunio ariannol strategol i gefnogi twf a chyflawni blaenoriaethau'r CBC.

1.6 Crynodeb o'r bwlch yn y gyllideb

Er bod cyfleoedd clir yn deillio o'r cynnydd yn y dyletswyddau statudol ar Uchelgais Gogledd Cymru i wella gwaith rhanbarthol a denu buddsoddiad sylweddol i'r rhanbarth, mae'r her o sicrhau cyllid o hyd. Mae'r CBC yn dibynnu ar yr ardoll sy'n cael ei thalu gan y 6 cyngor cyfansoddol (ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion Cynllunio Strategol), ac mae'r broses statudol o osod y gyllideb flynyddol yn cynnwys cytundeb ar swm yr ardoll i'w godi, a'i dosraniad ymhlith yr awdurdodau.

Mae gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos y bydd angen ariannu'r symiau canlynol drwy gyfuniad o ardoll a defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer y penawdau gwariant perthnasol.

	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyfanswm yr incwm nad yw'n ardoll	(470,000)	(470,000)	(470,000)
Cyfanswm y Gwariant	2,633,830	2,593,000	2,682,080
Diffyg i'w ariannu gan ardoll a chronfeydd wrth gefn	**2,163,830**	**2,123,000**	**2,212,080**

2. Cyd-destun Strategol

2.1 Amcanion, blaenoriaethau a rhaglenni

Mae dyletswyddau statudol Uchelgais Gogledd Cymru, Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, wedi'u nodi mewn rheoliadau a wneir yn unol â phwerau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn benodol, mae rheoliadau 11 i 14 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn amlinellu swyddogaethau statudol Uchelgais Gogledd Cymru:

- Llesiant economaidd
- Datblygu Polisi Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Cynllunio Strategol

Ffactor arwyddocaol wrth gyflawni'r ddyletswydd Llesiant Economaidd oedd trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor annibynnol (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972) gyda Chyngor Gwynedd yn awdurdod lletyol, i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, corff corfforaethol annibynnol, ar 1 Ebrill 2025.

Er mwyn cyflawni'r pwerau statudol hyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau strategol a rhanbarthol ledled Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau cyfansoddol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn darparu'r fframwaith ariannol sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy.

Trwy gydol cyfnod y cynllun, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein swyddogaethau statudol a datblygu rhaglenni sy'n cyfrannu at dwf economaidd, cysylltedd a chynaliadwyedd y rhanbarth. Mae'r prif flaenoriaethau strategol yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru.
- Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chefnogi gwell cysylltedd ar draws y rhanbarth.
- Arwain a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'i phortffolio o raglenni a phrosiectau.
- Cefnogi datblygiad a gweithrediad Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.
- Datblygu sgiliau a gallu'r gweithlu drwy waith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.
- Sicrhau trefniadau llywodraethu, perfformiad a rheoli ariannol cadarn.
- Datblygu gallu sefydliadol a gweithredol y CBC i fodloni cyfrifoldebau cynyddol y sefydliad.

Rydym yn ceisio sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at y blaenoriaethau hyn tra'n cynnal gwytnwch ariannol a rheoli risg effeithiol. Wrth ddatblygu'r cynllun, rhoddir ystyriaeth i'r adnoddau sydd ar gael, y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, a'r angen i ddarparu gwerth am arian wrth gyflawni canlyniadau i gymunedau, busnesau a rhanddeiliaid ledled Gogledd Cymru.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithio rhanbarthol a sicrhau bod buddsoddiadau'r CBC yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth o economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn i Ogledd Cymru, gan gefnogi twf economaidd, datblygu sgiliau a gwelliannau seilwaith strategol ledled y rhanbarth.

2.2 Ffactorau allanol sy'n effeithio ar y sefyllfa ariannol

Bydd nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar sefyllfa ariannol y CBC a allai effeithio ar lefelau cyllid, costau a blaenoriaethau y sefydliad. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu monitro a'u hystyried wrth ddatblygu a diweddaru'r cynllun.

Ffactor	Effaith bosibl
Cyllid gan y Partneriaid	Amharodrwydd i barhau i gefnogi Uchelgais Gogledd Cymru yn ariannol, gan arwain at ardoll annigonol.
Cyllid y Llywodraeth	Newidiadau i lefelau cyllid, trefniadau grant neu broffil grant.
Chwyddiant	Cynnydd mewn costau cyflogaeth, contract a gwasanaeth.
Amodau Economaidd	Effaith ar gostau gweithredu, buddsoddi a chyfleoedd ariannu.
Datblygiadau Polisi a Deddfwriaeth	Gofynion newydd neu newidiadau i flaenoriaethau'r CBC.
Disgwyliadau Rhanddeiliaid	Pwysau i gyflawni canlyniadau rhanbarthol a chyflawni gwerth am arian.

Byddwn yn adolygu effaith y ffactorau hyn yn rheolaidd fel rhan o'n trefniadau cynllunio ariannol, rheoli risg a gosod cyllideb.

3. Rhagdybiaethau Cynllunio

Mae'r rhagolygon ariannol yn y cynllun hwn yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau ynghylch incwm, gwariant ac amodau economaidd. Defnyddir y rhagdybiaethau hyn fel sail ar gyfer datblygu'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun.

3.1 Rhagdybiaethau Incwm

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif ragdybiaethau incwm a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun.

Ardal	Rhagdybiaeth
Cyfraniadau Partner (Cynllun Twf)	Cyfraniad gan 6 cyngor a 4 corff addysg i ariannu gweithredu'r Cynllun Twf. Mae hwn yn swm y cytunwyd arno, ac nid yw ei weithrediad yn dibynnu ar benderfyniadau ardoll ehangach. Mae'r CATC hwn yn rhagdybio y bydd cyfraniadau'r partner yn parhau fel y cytunwyd rhwng y partneriaid.
Incwm Ardoll	Yn unol â gofynion statudol, bydd yr ardoll yn parhau i gael ei chodi ar y 6 cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhaid pennu'r swm sydd i'w gasglu trwy ardoll, a'i ddyrannu i'r aelodau cyfansoddol, cyn diwedd mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.
Cyllid Prosiect	Rhagwelir y gellir parhau i ddefnyddio 2.15% o grant y Cynllun Twf tuag at gostau refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio
Incwm Llog	Yn seiliedig ar lefelau arian parod a chyfraddau llog a ragwelir gan Fanc Lloegr a'r ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.
Cyfraniadau Llog Partneriaid	Yn seiliedig ar incwm ardrethi annomestig, proffil gwariant cyfalaf, proffil grant a chyfradd llog a ragwelir

3.2 Rhagdybiaethau gwariant

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif ragdybiaethau gwariant a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun.

Ardal	Rhagdybiaeth
Strwythur staffio	Y bydd angen i strwythur staffio'r CBC adlewyrchu'r dyletswyddau presennol ac sy'n dod i'r amlwg a osodir ar y sefydliad.
Cynnydd Cyflog	Yn unol â'r rhagolygon cenedlaethol diweddaraf a'r wybodaeth sydd ar gael.
Codiadau cyflog	Yn cynnwys costau cytundebol lle bo hynny'n berthnasol.
Yswiriant Gwladol	Adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys i gyfraddau cyfraniadau.
Cyfraniadau Pensiwn	Yn seiliedig ar gyfraddau cyflogwr disgwyliedig a bydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys i gyfraddau cyfraniadau.
Chwyddiant	Yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau cyflogaeth, contractau a gwasanaethau. Gwneir rhagdybiaethau yn unol â'r wybodaeth ragolygon ddiweddaraf sydd ar gael gan Fanc Lloegr a'r ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.
Costau trydydd parti	Bydd yn cynnwys rhagdybiaethau darbodus o gostau'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a darparwyr trydydd parti eraill, fel y nodir mewn contractau a chytundebau lefel gwasanaeth.
Costau Eiddo	Yn cynnwys taliadau cyfleustodau, rhenti a chostau cysylltiedig lle bo'n berthnasol.

3.3 Adolygu rhagdybiaethau

Fel y nodwyd eisoes, bydd y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y cynllun yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r amgylchiadau diweddaraf. Bydd angen gwneud hyn o leiaf bob blwyddyn, ond yn ymarferol bydd angen ei wneud yn ystod y flwyddyn wrth i ddata a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg gael ei dderbyn. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i lefelau cyllid, chwyddiant, costau cyflogaeth neu amodau economaidd yn cael eu hystyried wrth ddiweddaru'r rhagolygon ariannol.

4. Sylfaen Ariannol

4.1 Cyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyfredol

Dyma gyllideb sylfaenol 2026/27 ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, fel y'i cymeradwywyd ar 23 Ionawr 2026. Nid yw'n cynnwys costau sy'n ymwneud â Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi na'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gan nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r ardoll, ond gan gytundeb a grant cytundebol ar wahân.

Categori	Cyllideb 2026/27 (£)
Gweithwyr	956,920
Teithio	3,110
Cyflenwadau a Gwasanaethau	654,630
Gwasanaethau Cefnogol	273,220
Costau Sefydlu	71,890
Incwm (nad yw'n ardoll, gan gynnwys cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn)	(944,590)
Cyfanswm Gwariant Net	**1,015,180**

4.2 Man cychwyn rhagolwg ariannol

Defnyddir y gyllideb sylfaenol fel sail ar gyfer datblygu'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun hwn. Mae'r rhagolygon yn ystyried effaith y rhagdybiaethau cynllunio, gan gynnwys:

- Chwyddiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Newidiadau mewn cyllid.
- Pwysau a rhaglenni gwasanaeth.
- Newidiadau i gyfrifoldebau'r CBC.

Mae'r dull hwn yn galluogi'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i asesu cynaliadwyedd ariannol, nodi bylchau cyllidebol posibl a chefnogi penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau.

4.3 Newidiadau i'r Sylfaen

Y newid mwyaf yn y sylfaen ariannol oedd trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio, ynghyd â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025. Arweiniodd y trosglwyddiad hwn at drosglwyddo asedau, ymrwymiadau, cronfeydd wrth gefn a chyfrifoldebau gweithredol sylweddol i'r CBC, gan gynyddu maint a chymhlethdod gweithgarwch y sefydliad.

5. Rhagolwg Ariannol Tair Blynedd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r rhagolygon incwm, gwariant a sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer y CBC dros gyfnod y cynllun hwn. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir yn Adran 3.

5.1 Rhagolygon Incwm

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r incwm a ragwelir dros gyfnod y cynllun.

Ffynhonnell yr Incwm	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Llog ar Falansau	(20,000)	(20,000)	(20,000)
Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	(450,000)	(450,000)	(450,000)
Cyfanswm Incwm nad yw'n ardoll	**(470,000)**	**(470,000)**	**(470,000)**

Mae'r rhagolygon incwm yn adlewyrchu trefniadau cyllido cyfredol, grantiau hysbys a rhagdybiaethau ynghylch ffynonellau incwm eraill.

5.2 Rhagolygon Gwariant

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gwariant a ragwelir dros gyfnod y CATC.

Gwariant a ragwelir	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyd-Bwyllgor Corfforedig	1,220,090	1,354,100	1,446,490
Cynllun Datblygu Strategol	814,210	634,690	625,910
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	599,530	604,210	609,680
Cyfanswm y Gyllideb Gwariant	**2,633,830**	**2,593,000**	**2,682,080**

Mae'r rhagolygon gwariant yn cynnwys effaith dyfarniadau cyflog, chwyddiant, ymrwymiadau cytundebol a phwysau costau eraill a ragwelir dros gyfnod y cynllun.

5.3 Sefyllfa Ariannol Gyffredinol

Mae cymhariaeth o'r incwm a'r gwariant disgwyliedig yn rhoi trosolwg o sefyllfa ariannol y CBC dros gyfnod y CATC.

Dyma'r symiau y bydd angen eu hariannu trwy gyfuniad o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a chodi ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol.

	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyfanswm yr incwm nad yw'n ardoll	(470,000)	(470,000)	(470,000)
Cyfanswm y Gwariant	2,633,830	2,593,000	2,682,080
Diffyg	**2,163,830**	**2,123,000**	**2,212,080**

Mae rhywfaint o sgôp cyfyngedig ar gyfer amrywio'r union gyfuniad a'r gyfran o ardoll / cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio dros gyfnod y CATC. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

6. Meysydd Gwariant

6.1 Cynllun Twf

Mae'r Cynllun Twf yn ddarostyngedig i drefniadau cyllido ar wahân ac nid yw'n cael ei ariannu drwy'r ardoll. Mae ganddo hefyd gronfeydd wrth gefn ar wahân na ellir eu defnyddio i ariannu gweithgareddau ehangach y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Er bod y CBC hyd yma wedi derbyn mwy o incwm grant nag y mae wedi'i wario ar brosiectau'r Cynllun Twf, rhagwelir bwlch cyllido dros dro tymor canolig rhwng proffil gwariant y Cynllun Twf a phroffil disgwyliedig cyllid y llywodraeth a dderbyniwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Yn 2020, comisiynodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gwmni cynghori trysorlys annibynnol i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sy'n ofynnol i dalu'r gost hon ac sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau ers 2021/22. Mae nifer o newidynnau (incwm ardrethi annomestig, proffil gwariant cyfalaf, proffil grant a chyfradd llog a ragwelir) a all effeithio ar y costau hyn, ac mae'r cyfraniadau partner yn cael eu hail gyfrifo bob blwyddyn i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae cronfa llog penodol wedi'i chreu ac mae wedi'i neilltuo i ariannu'r costau hyn ac mae'n cynnwys cyfraniadau'r partner yn ogystal â'r llog ar falansau'r Cynllun Twf (ac eithrio 2024/25 a 2025/26 lle gwnaed penderfyniad y Bwrdd i'r llog gael ei drosglwyddo i'r gronfa adnoddau wrth gefn i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth, datblygu prosiectau a chadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i fis Mawrth 2026).

Yn 2023/24 a 2024/25, mae'r ddwy Lywodraeth wedi atal eu cyllid ac er bod proffil grant diwygiedig wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu proffil grant diwygiedig eto i gynnwys y cyllid o £16m a gafodd ei atal. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd angen i'r CBC fenthyca yn 2027/28 i ariannu'r gwariant cyfalaf. Ffactor arall a fydd yn cynyddu cost benthyca'n ddiangen yw amseriad y grant a dderbynnir gan lywodraethau, gyda thaliadau grant yn cael eu derbyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac ar rai achlysuron wedi llithro i'r flwyddyn ariannol ganlynol.

6.2 Parth Buddsoddi

Dros gyfnod deng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC a £220,000 yr un i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nododd adolygiad diwedd Gorffennaf 2026 na fydd y dyraniad gweinyddol ar ei ben ei hun yn ddigonol i ariannu costau'r CBC ar gyfer 2026/27, felly bydd y llog ar falansau Parth Buddsoddi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y bwlch ariannu hwn. Mae'r defnydd o log yn drefniant dros dro gan y bydd llog i'w dderbyn ar falansau yn gostwng wrth i all-lif arian grant y Parth Buddsoddi

gynyddu, a bydd angen mesurau ar y CBC i sicrhau bod y gwariant yn parhau i fod o fewn yr amlen ariannu yn y blynyddoedd i ddod.

6.3 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn sicrhau bod datblygu sgiliau wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni buddsoddi mawr gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi. Mae'n cael ei ariannu gan grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru gyda'r rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei wneud ar weithwyr, digwyddiadau a chyfarfodydd, marchnata a chyfathrebu a'r porth sgiliau.

6.4 Y Gronfa Twf Lleol

Mae'r Gronfa Twf Lleol yn rhaglen fuddsoddi sy'n cefnogi twf cynhyrchiant ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru rhwng 2026 a 2029. Mae'n cefnogi buddsoddiad mewn busnesau cynhyrchiol a chystadleuol, sgiliau a chymorth i helpu pobl i gael gwaith ac isadeilwaith rhanbarthol.

Yn ystod 2027–29 (ac wedi hynny yn amodol ar unrhyw estyniad), bydd y cyfrifoldeb am gynllunio a goruchwylio cyflawni'r Gronfa Twf Lleol yn trosglwyddo o Gyngor Gwynedd i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, a fydd yn arwain cynllunio rhanbarthol, blaenoriaethu a dewis portffolio.

Mae'r costau gweinyddol wedi'u capio ar 4% o gyfanswm dyraniadau y Gronfa Twf Lleol ym mhob blwyddyn ariannol ac felly bydd angen i'r CBC weithio o fewn eu hamlen ariannol.

6.5 Cyd-Bwyllgor Corfforedig

Mae'r grŵp cyllideb hwn yn cynnwys costau net cyflawni dyletswyddau statudol Uchelgais Gogledd Cymru ac eithrio'r Cynllun Twf, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal â'r costau gweithredol, mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys craidd corfforaethol y sefydliad, a'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg corff awdurdod lleol gan gynnwys swyddogaethau statudol fel y Prif Weithredwr, Swyddog S151 a Swyddog Monitro, ac ystod o swyddogaethau corfforaethol eraill megis polisi, caffael a gwasanaethau cefnogol eraill. Er bod rhai o'r costau hyn yn daladwy i Gyngor Gwynedd fel darparwr gwasanaethau cefnogol drwy gytundebau lefel gwasanaeth, mae'r CATC yn mynd i'r afael â'r materion capasiti cyfredol o fewn rhai o swyddogaethau craidd Uchelgais Gogledd Cymru.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	875,560	1,000,980	1,079,000
Ymgynghorwyr Allanol	37,260	38,560	39,900
Teithio	3,110	3,750	4,430
Cyflenwadau a Gwasanaethau	191,780	194,490	202,760
Gwasanaethau Cefnogol	149,640	154,880	160,300
Incwm - Llog ar falansau	(20,000)	(20,000)	(20,000)
Cyfanswm Gwariant Net	**1,200,090**	**1,334,100**	**1,426,490**

6.6 Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

Tynnodd adroddiad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar 4 Medi 2025 sylw at y ffaith bod y Rheoliadau sy'n ymwneud â datblygu'r CDS yn nodi'n glir bod cynhyrchu CDS yn ddyletswydd statudol i'r CBC, ac yn ymhlyg â hynny mae'r cyfrifoldeb i dalu costau llawn gwneud hynny. Ar wahân i rywfaint o gyllid grant cymharol fychan ar y cychwyn, nid oes unrhyw gyllid wedi'i nodi ar gyfer y CDS gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i ymrwymiad cyhoeddedig i gefnogi gwaith y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fel y mae pethau'n sefyll, felly mae i fyny i'r CBC dalu costau llawn y CDS.

Mae'r gwaith a wnaed ers mis Medi 2025 wedi caniatáu i'r CBC ddatblygu a mireinio ei ragolygon ariannol, ac fel y gwelir o'r tabl isod, disgwylir i wariant ostwng ar ôl 2027/28 wrth i'r angen am ymgynghorwyr allanol (a ddangosir o dan Gyflenwadau a Gwasanaethau) leihau'n sylweddol, gyda chyfrifoldebau wedi'u darparu'n fewnol.

Cynllun Datblygu Strategol	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	232,040	300,440	375,160
Teithio	950	980	1,010
Cyflenwadau a Gwasanaethau	531,380	281,680	196,340
Gwasanaethau Cefnogol	49,840	51,590	53,400
Cyfanswm Gwariant Net	**814,210**	**634,690**	**625,910**

6.7 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i'w hardal, oddi yno ac o fewn eu hardal, a datblygu polisïau ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn eu hardal, mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC Gogledd Cymru, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau rhanbarthol cysylltiedig mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid. Trwy'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru gyfrifoldebau i reoli prosiectau a rhaglenni. Cyflawnir y rôl hon trwy gydlynu, cynllunio a datblygu'r rhaglenni prosiect perthnasol a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r cyfrifoldeb i fonitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau, gan gynnwys staff, yn cael ei wneud gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	207,740	215,020	222,550
Teithio	520	540	560
Cyflenwadau a Gwasanaethau	341,940	337,590	333,720
Gwasanaethau Cefnogol	49,330	51,060	52,850
Incwm - Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	(450,000)	(450,000)	(450,000)
Cyfanswm Gwariant Net	**149,530**	**154,210**	**159,680**

Derbyniwyd cyllid dangosol ar gyfer y grant ar gyfer 2027/28 a 2028/29. Wrth ddatblygu'r CATC hwn mae rhagdybiaeth y bydd cyllid yn aros yn gyson yn 2029/30, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Bydd y sefyllfa yn cael ei chadw dan adolygiad.

7. Cyllid

Mae model cyllido y CBC yn dibynnu ar gyfuniad o gyfraniadau awdurdodau cyfansoddiadol, grantiau a ffynonellau cyllid eraill. Mae rheoli'r ffynonellau hyn yn effeithiol yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chyflawni ein blaenoriaethau.

7.1 Defnyddio cronfeydd wrth gefn

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa cronfeydd wrth gefn y CBC (heb gynnwys unrhyw gronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, sydd wedi'u neilltuo).

	£
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026	(1,636,007)
Defnydd yn 2026/27 (wedi'i gymeradwyo yn y gyllideb)	624,590
Defnydd yn 2026/27 (amcangyfrifir fel rhan o adolygiad ariannol Gorffennaf 2026)	39,874
Ad-dalu gwariant Parth Buddsoddi 2024/25 i'r gronfa wrth gefn y CBC yn 2026/27	(62,405)
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2027	(1,033,948)
5% o gyllideb refeniw gros 2027/28 wrth gefn	131,692
Cyfanswm y gronfa wrth gefn sydd ar gael ar gyfer 2027/28	**(902,256)**

Fel y gwelir, yn ogystal â'r £624.6k a gymeradwywyd i ariannu cyllideb 2026/27, mae adolygiad diwedd Gorffennaf 2026 yn amcangyfrif y bydd angen £40k ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddelio â gorwariant a ragwelir. Gwariant y Parth Buddsoddi ar gyfer 2024/25 oedd £83k ac ariannwyd gan gronfa wrth gefn y CBC. Mae £21k wedi'i ad-dalu i'r gronfa wrth gefn yn 2025/26 a bydd y £62k sy'n weddill yn cael ei ad-dalu yn 2026/27.

Yn unol ag arfer da a dderbynnir yn gyffredinol, mae angen cadw oddeutu 5% o'r Gwariant Refeniw Gros fel Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol. Byddai hyn yn gadael oddeutu £902k i'w ddefnyddio fel rhan o'r cyllidebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

7.2 Cyfraniadau ardoll Awdurdodau Partner

Mae cyfraniadau ardoll yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn ffynhonnell allweddol o gyllid i'r CBC. Mae lefel y cyfraniadau yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried y gofynion ariannol, blaenoriaethau rhanbarthol a fforddiadwyedd i'r partneriaid.

Yn dilyn cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 25 Medi 2026, cyflwynir yr opsiwn arfaethedig isod.

Cynyddu'r ardoll a defnyddio 80% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn 2027/28

	Cyfanswm Ardoll 2027/28	(Cynnydd) / Gostyngiad	%
Awdurdod	(£)	(£)	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(233,570)	(68,790)	42%
Cyngor Sir Ddinbych	(203,770)	(60,730)	42%
Cyngor Sir y Fflint	(323,300)	(96,310)	42%
Cyngor Gwynedd	(233,950)	(69,160)	42%
Cyngor Sir Ynys Môn	(142,190)	(41,580)	41%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(286,090)	(84,780)	42%
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(19,160)	(5,500)	40%
Cyfanswm Ardoll	**(1,442,030)**		
Defnydd y cronfeydd wrth gefn	(721,800)		

Cronfa wrth gefn sydd ar gael sy'n weddill (ar ôl y dyraniad cronfa wrth gefn cyffredinol o 5%) ar 31 Mawrth 2028: £180,456.

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys defnyddio 80% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ar gyfer 2027/28, 2028/29 a 2029/30. Byddai hyn yn darparu cydbwysedd o allu defnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn ym mhob un o dair blynedd ariannol er mwyn lleihau'r cynnydd ardoll. Gyda'r opsiwn hwn, byddai angen i'r ardoll gynyddu oddeutu 42% yn 2027/28, ond gyda chynnydd is o oddeutu 37% yn 2028/29 a 10% yn 2029/30.

7.3 Ariannu Rhaglenni Rhanbarthol

Mae llawer o weithgareddau'r CBC yn dibynnu ar grantiau a chyllid allanol. Byddwn yn monitro lefelau cyllid, cyfleoedd newydd, dyddiadau dod i ben grant a risgiau cyllido hirdymor.

7.4 Trefniadau Gwasanaeth a Rennir

Lle bo hynny'n briodol, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio gwasanaethau a rennir i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau hyn yn cynnwys gwasanaethau ariannol, adnoddau dynol, gwasanaethau cefnogol democrataidd, TGCh a gwasanaethau corfforaethol eraill.

7.5 Dadansoddiad o ddibyniaeth ar grantiau

Mae dibyniaeth ar gyllid grant yn peri risg ariannol, yn enwedig pan fo grantiau'n gyfnod penodol. Byddwn yn monitro lefel y ddibyniaeth ar grantiau, dyddiadau dod i ben cyllid a chyfleoedd i amrywio ffynonellau incwm.

Rhaglen	Ffynhonnell Grant
Cynllun Twf Gogledd Cymru	Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU
Parth Buddsoddi	Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU
Cynllun Datblygu Strategol	Dim grant cyfredol
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Llywodraeth Cymru

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyllid grant i gefnogi nifer o'i rhaglenni strategol. Bydd unrhyw ostyngiad neu newid mewn trefniadau grant yn risg sylweddol i gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad.

8. Strategaeth Arian Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan allweddol o reolaeth ariannol y CBC ac yn darparu gwytnwch ariannol i reoli risgiau, ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl a chefnogi costau un tro. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa gronfeydd wrth gefn cyffredinol a ragwelir ar gyfer cyfnod y CATC hwn.

Categori Cronfa Wrth Gefn	Ar 1/4/2027	Ar 31/3/2030
	(£)	(£)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	131,692	131,692
Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi	902,256	7,218
Cyfanswm	**1,033,948**	**138,908**

Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn cynrychioli 5% o gyllideb refeniw gros 2027/28 gyda gweddill y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

8.2 Defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn

Lle bo'n briodol, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer:

- Cyllido cost un-amser.
- Rheoli risgiau neu bwysau ariannol tymor byr.
- Cefnogi prosiectau a blaenoriaethau'r CBC.
- Lliniaru effaith amrywiadau mewn incwm neu wariant.
- Cynorthwyo gyda newidiadau neu drawsnewid sefydliadol.

Bydd unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ystyried yn drylwyr yng nghyd-destun cynaliadwyedd ariannol tymor hwy, a bydd y sefyllfa yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r adolygiadau ariannol.

Mae cronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'u neilltuo ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn a ddangosir uchod.

8.3 Isafswm lefel y cronfeydd wrth gefn

Mae'r CBC yn cynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol er mwyn diogelu'r sefydliad rhag risgiau a chostau annisgwyl. Bydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ddechrau oddeutu 5% o'r Gwariant Refeniw Gros amcangyfrifedig ar gyfer 2027/28, a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol, gan ystyried y risgiau ariannol allweddol, ansicrwydd cyllido, a lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

8.4 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu clustnodi at ddibenion penodol, megis:

- Cronfa Wrth Gefn Cynllun Twf
- Cronfa Prosiectau Cynllun Twf
- Cronfa Llog Cynllun Twf
- Cronfa Adnoddau Cynllun Twf
- Cyfrif Dal Llog Cynllun Twf
- Cronfa Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf na'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i ariannu neu sybsideiddio gweithgareddau eraill Uchelgais Gogledd Cymru.

Byddwn yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol.

8.5 Rhagolygon Cronfeydd Wrth Gefn

Bydd lefelau cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro trwy gydol cyfnod y cynllun i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddigonol i gefnogi gwytnwch ariannol y sefydliad. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadlewyrchu yn y rhagolygon ariannol a'r broses gyllidebu flynyddol.

9. Asesiad Risg

Mae'r cynllun yn cynnwys asesiad o'r prif risgiau a allai effeithio ar sefyllfa ariannol y CBC dros ei oes. Mae'r risgiau hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y sefydliad.

9.1 Risgiau Ariannol Allweddol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif risgiau sy'n wynebu'r CBC a'r mesurau lliniaru perthnasol.

Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Camau Lliniaru
Gostyngiad mewn cyllid grant	Uchel	Canolig	Amrywio ffynonellau cyllido a monitro cyfleoedd grant newydd
Chwyddiant yn uwch na'r rhagolwg	Uchel	Canolig	Darpariaeth wrth gefn priodol ac adolygiad rheolaidd o ragdybiaethau
Pwysau i recriwtio a chadw staff	Canolig	Canolig	Cynllunio'r gweithlu a monitro marchnad lafur
Dyfarniadau cyflog uwch na rhagdybiaethau	Uchel	Canolig	Adolygu cyllidebau cyflog a monitro trafodaethau cenedlaethol
Oedi neu fethu â sicrhau cyllid allanol	Uchel	Canolig	Cryfhau prosesau cynllunio a datblygu prosiectau
Newidiadau mewn deddfwriaeth neu bolisi	Canolig	Canolig	Monitro datblygiadau polisi a chynllunio ymlaen llaw
Cynnydd mewn costau contract a gwasanaeth	Canolig	Canolig	Rheoli contractau'n effeithiol ac adolygu trefniadau caffael
Dibyniaeth ar nifer fach o ffynonellau cyllido	Uchel	Isel/Canolig	Gall y CBC archwilio ffynonellau cyllid amgen, ond mae'r opsiynau yn gyfyngedig iawn.
Cost benthyca ddiangen	Uchel	Uchel	Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Chymru ar broffil ac amseriad Cyllid Grant y Cynllun Twf.
Incwm ardrethi annomestig ar brosiectau Cynllun Twf heb ei dderbyn neu'n is na'r disgwyl	Canolig	Canolig	Mae angen cymeradwyaeth gweinidogion Llywodraeth Cymru ar incwm ardrethi annomestig yn ogystal â chytundebau ar rannu incwm ardrethi annomestig rhwng cynlluniau'r Cynllun Twf, Porthladd Rydd a'r Parth Buddsoddi.

Nid yw cyllid grant Parth Buddsoddi ar gael i ariannu gwariant prosiect	Uchel	Isel/Canolig	Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Chymru ar broffil ac amseriad Cyllid Grant Parth Buddsoddi.
Gwariant gweinyddu Parth Buddsoddi yn uwch na'r cyllid sydd ar gael	Canolig	Canolig	Defnyddio incwm llog yn y tymor byr, ond mae angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y gwariant yn aros o fewn yr amlen ariannu yn y blynyddoedd i ddod.

9.2 Rheoli Risg Ariannol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli risgiau ariannol drwy:

- Adolygu'r cynllun yn flynyddol.
- Monitro perfformiad ariannol yn rheolaidd.
- Cynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn.
- Diweddaru rhagolygon a rhagdybiaethau wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael.
- Integreiddio rheoli risg i brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

9.3 Casgliad

Mae rheoli risg yn rhan annatod o gynaliadwyedd ariannol Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y risgiau a nodir yn y cynllun yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y sefydliad yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn cyllid, costau a'r amgylchedd gweithredu ehangach.

Atodiad – Dadansoddiad Sefydliad Swyddi

Swyddi Presennol (heb gynnwys y rhai sydd wedi eu hariannu'n llawn gan y Cynllun Twf a/neu y Parth Buddsoddi

Teitl Swydd	Dyraniad Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Prif Weithredwr	100%			
Cynhorthwy-ydd Personol i'r Prif Weithredwr	100%			
Rheolwr Prosiect Cyllido	50%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Arweiniol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol	50%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau	25%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol	25%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Caffael	75%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Cefnogi Corfforaethol	100%			
Uwch Swyddog Gweithredol	75%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Polisi	100%			
Rheolwr Rhaglen	25%			Tan ganol Blwyddyn 1, wedi ei ariannu gan PB a CTLl
Swyddog Monitro	40%	5%	10%	Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB

Teitl Swydd	Dyraniad Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Dirprwy Swyddog Monitro	75%	5%	5%	Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Cyfreithiwr	15%	5%		Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Rheolwr Masnachol	33%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Rheolwr Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol		100%		
Uwch Swyddog Cynllunio		100%		
Uwch Swyddog Trafndiaeth			100%	
Swyddog Trafndiaeth			100%	
Swyddog Trafndiaeth			100%	

Mae'r swyddi sydd eisoes wedi eu llenwi i gyd yn rhai tymor penodol, ar wahân i'r Prif Weithredwr a Cymhorthydd Personol y PW sy'n apwyntiadau parhaol.

Swyddi Ychwanegol sydd wedi eu cynnwys yn y CATC ac i gyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth cyllidebol

Teitl Swydd	Dyraniad Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau)	100%			O Blwyddyn 1
Swyddog Cyfathrebu	50%			O Blwyddyn 1. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Cynllunio		100%		O Blwyddyn 1
Swyddog Gweithredol	25%			O Blwyddyn 2. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Polisi	100%			O Blwyddyn 2
Swyddog Cymorth Technegol		100%		O Blwyddyn 2
Swyddog Rhaglen		100%		O Blwyddyn 3
Dadansoddwr Systemau / Data	33%			O Blwyddyn 3. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB